

## Cofion a Chyfarchion

- Parhawn i gofio yn ein gweddïau am Haf Williams a Megan Evans (Llansannan) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, a Gwyneth Rawson (Llanfair) yn Ysbyty Llandudno. Bu Bob Edwards (Groes) yn Ysbyty Glan Clwyd am rai dyddïau hefyd ond da deall ei fod ef, a Dilys Vaughan (Saron), bellach wedi cael dod adref. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd, gan ofyn iddo gysgodi drostynt a thros eu hanwyliaid yr un modd. Hyderwn y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.
- Llongyfarchiadau i Dei ac Eurgain Hughes (Llanfair/Llansannan) ar enedigaeth merch, Casi Dafydd, chwaer fach i Awel, Meilir a Leusa. Diolchwn i Dduw am y rhodd yma eto, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.
- Llongyfarchiadau i Eirian Jones a Meryl Pierce sydd wedi cael eu dewis i wasanaethu fel blaenoriaid yng Nghapel Cefn Berain. Diolchwn i Dduw amdanynt a bydded Ei fendith ar yr eglwys. Bydd oedfa gyhoeddus i ordeinio a llongyfarch blaenoriaid yng Nghapel Pentrecelyn, Rhuthun ar Orffennaf 7fed am 7.00.

## I ddod

- **CYFARFOD BLAENORIAID A DIACONIAID Y FRO** nos Fawrth, Mai 22ain yn Festri Capel Coffa Henry Rees, Llansannan am 7.30.
- **CYMANFA GANU ANNIBYNWYR DYFFRYN CLWYD** dydd Sul, Mehefin 10fed yng Nghapel Llandegla am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2017-18. Arweinydd: Dafydd Watson, Mynydd Isa. Croeso i bawb.
- **'DISGLAIR'** – Penwythnos i ferched o bob oed yn y Bala ar Mehefin 15fed-16eg. Siaradwyr: Sian Wyn Rees, Cath Woolridge ac Ali Roberts. Cofrestrwch ar-lein ar wefan [colegybala.org](http://colegybala.org) neu cysylltwch â'r Coleg i dderbyn copi papur o'r ffurflen: 01678 520565 / [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk).
- **RHAI O GYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
  - ⇒ **Cwrs leuencid (i flynyddoedd 7 – 10):** Gorffennaf 30ain – Awst 3ydd
  - ⇒ **Anhrefn Awst (i blant 8-12 oed):** Awst 13eg – 16eg
  - ⇒ **Souled Out (15+):** Awst 18fed – 23ain

Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynd ar un o'r cyrsiau, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Mae angen llenwi ffurflen i archebu lle, a'i hanfon ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan ag sydd bosibl.

## Darllenid Wythnos Nesaf

Salm 117 (BCND tud.559 / BCN tud.510)



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 13<sup>eg</sup> Mai 2018

## Darllenid y Dydd

Jwdas 24-25

(BCND tud.270 / BCN tud.248)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Croeso cynnes i chi i'n hoedfaon ar draws Bro Aled a hithau'n Sul Cymorth Cristnogol. Wrth feddwl am anghenion pobl mewn gwahanol rannau o'r byd, diolchwn nad yw ffiniau gwleidyddol yn atal gwaith Duw, a gweddiwn ar i drugaredd yr Arglwydd gael ei amlygu trwy waith Ei eglwys fyd-eang a'r elusennau sy'n ceisio cynorthwyo'r rhai sydd mewn angen.

Dros yr wythnos nesaf byddaf yn treulio ychydig o amser gyda Christnogion o America sydd wedi bod yn ymweld yn gyson â Chymru i gynorthwyo ac annog rhai o'r arweinwyr eglwysig Cymraeg. Mae'n braf iawn cael sgwrsio â hwy a gallu holi cwestiynau am yr hyn sy'n digwydd yn eu rhan hwy o'r byd, ond yn sydyn iawn mae'r gwahaniaethau digri rhwng Cymry Cymraeg ag Americanwyr yn codi eu pen. Oni bai am y gwahaniaeth ieithyddol amlwg, a'r acenion tra gwahanol wrth i ni siarad Saesneg, un nodwedd sy'n anodd ei anwybyddu yw'n tueddiadau gwahanol pan mae hi'n dod at annog a chanmol ein gilydd. Fel Cymry rydym ni'n tueddu i fod yn hynod o swil pan mae rhywun yn gor-ganmol, a braidd yn anghyfforddus os ydynt yn bod yn rhy gadarnhaol am yr hyn yr ydym yn ei wneud. Ond mae'r Americanwyr (o leiaf y rhai yr ydw i'n yn eu hadnabod!) yn dra gwahanol. Maent yn llawn brwdfrydedd yn annog heb wrido gan weld posibiladau yn hytrach na chanolbwyntio ar fethiannau. Heb fynd yn rhy ddwys i mewn i seicoleg trigolion gwledydd y byd, tybed onid yw'n tueddiad ni fel Cymry Cymraeg i geisio osgoi canmoliaeth yn arwain at dlodi yn ein mawl hefyd? O droi at ein darllenid ar y cyd o ddiwedd llythyr Jwdas gwelwn fawl bendigedig i'r Arglwydd Dduw. Mae Jwdas am ganmol Duw yn helaeth gan fynd i fanylder ynglŷn â'r rhesymau pam y dylid moliannu'r Arglwydd. Ef yw'r un sy'n gallu cadw'r Cristion rhag syrthio, Ef sydd trwy Iesu Grist wedi'n hachub o'r farn gan ddod â'i bobl yn ddi-fai i'w bresenoldeb Ef am dragwyddoldeb! Wrth i ni feddwl am hyn sut ydym ni'n ymateb? Os ydym yn perthyn i Grist trwy ffydd, mae geiriau'r mawl yma yn wirioneddau amdanom yn awr ac am byth, oni ddylem ni ymuno ym mawl Jwdas trwy ddweud "Amen"? Gweddiwn am gymorth yr Ysbryd Glân i'n harwain i foli Duw â'n holl galon, heb dawelu mewn swildod rhag canmol yr Un sy'n haeddu pob clod am ein creu, ein caru, a'n cadw trwy ei Fab annwyl.

*'Fy enaid, bendithia'r Arglwydd, a'r cyfan sydd ynof ei enw sanctaidd.*

*Fy enaid, bendithia'r Arglwydd, a phaid ag anghofio'i holl ddoniau: ef sy'n maddau fy holl gamweddau, yn iacháu fy holl afiechyd.'* (Salm 103:1-3)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

*Rhodri*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 13<sup>eg</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Gwion yn pregethu.
- Mawrth – 15<sup>fed</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Iau – 17<sup>eg</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog am 5.00.
- Gwener – 18<sup>fed</sup> ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sul nesaf – 20<sup>fed</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 13<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Oedfa Cymorth Cristnogol yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn am 11.00. Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Bydd cinio i ddilyn ac fe wneir casgliad tuag at Cymorth Cristnogol.
- Sul nesaf – 20<sup>fed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 13<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Oedfa Undebol Cymorth Cristnogol yn Eglwys Sant Sannan am 11.00. Ni fydd Ysgol Sul.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi Teuluol yn Nantglyn am 2.00.
- Mawrth – 15<sup>fed</sup> ➤ Croeso i chi ddod am 'Baned a Sgwrs' yn Ffestri Llansannan o 1.30-3.30.
- Mercher – 16<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones (870656) **HEDDIW (13<sup>eg</sup>)**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 20<sup>fed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deulu yn Llansannan am 10.00 a bydd paned i ddilyn.
- Cynhelir Sasiwn Plant yng Nghapel Groes am 2.00 o dan arweiniad Mrs Mair Beech Williams, gan ddefnyddio Detholiad 2017-18. Bydd y casgliad yn mynd tuag at Ymchwil Cancer y Fron a bydd paned a chacen i ddilyn y cyfarfod.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 13<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 20<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Sasiwn Plant yng Nghapel Groes am 2.00 o dan arweiniad Mrs Mair Beech Williams, gan ddefnyddio Detholiad 2017-18. Bydd y casgliad yn mynd tuag at Ymchwil Cancer y Fron a bydd paned a chacen i ddilyn y cyfarfod.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 13<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 a bydd Gwasanaeth Cymorth Cristnogol Undebol yn y capel am 2.00.
- Sul nesaf – 20<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Sasiwn Plant yng Nghapel Groes am 2.00 o dan arweiniad Mrs Mair Beech Williams, gan ddefnyddio Detholiad 2017-18. Bydd y casgliad yn mynd tuag at Ymchwil Cancer y Fron a bydd paned a chacen i ddilyn y cyfarfod.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 13<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Gwasanaeth Undebol Cymorth Cristnogol yng Nghapel Llanefydd am 10.00. Croeso cynnes i bawb.
- Gwener – 18<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **HEDDIW (13<sup>eg</sup>)**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 20<sup>fed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291  
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536  
*Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Eglwys Bro Aled

**Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.**